


**ANDREW RT DAVIES MS & JOEL JAMES MS**

Your regional MS team for South Wales Central

Summer 2021

# YOUR *NEW TEAM* FOR SOUTH WALES CENTRAL

**South Wales Central Senedd Members Andrew RT Davies and Joel James have spoken of their "immense pride" at being elected to serve their home area.**

At May's Senedd elections, Andrew was re-elected for his fourth term and Joel was elected for the first time. Andrew and Joel form a formidable team presenting a strong Conservative voice in the Senedd advocating the importance of the Union and representing the people of Cardiff, the Vale and RCT, as part of the new 16 strong Welsh Conservative Group.



Andrew said, "It's a huge honour to have been re-elected to serve as a regional representative for Cardiff, the Vale and RCT for the fourth time.

"No problem is too big or too small, so if there is ever anything I can help with, please do get in touch.

"I'm delighted to have Joel join me as a regional MS and together we will form a solid team holding the Welsh Government to account."



Joel said, "I am very fortunate to have been elected at a time of expansion in the Welsh Conservative group and I'm delighted to be part of a new, enthusiastic and vibrant Conservative team in the sixth Senedd. I am very fortunate to have been elected at a time of expansion of the Welsh Conservative group and delighted to part of the new enthusiastic and vibrant Conservative team in the sixth Senedd. I believe that accessibility is a key aspect of parliamentary office, and I would like to reiterate Andrews words of getting in contact. My office is up and running so please call or email if you require my assistance."

Andrew and Joel have both paid tribute to former South Wales Central MS David Melding, who stood down after 22 years. Andrew said, "It was an honour to serve alongside David since 2007, and I know he will be a big loss to Welsh politics.

"He still has a big contribution to make in public life and Joel and I both wish him all the best for the future."

Joel added, "I have known David since I was first elected as a County Borough Councillor in 2008. I wish him all the best in his retirement. David set a high bar in Welsh politics and I very much look forward to carrying on with a high standard of representation in South Wales Central."


## ANDREW RT **DAVIES MS**

WELSH PARLIAMENT
Cardiff Bay CF99 1SN

CONSTITUENCY OFFICE
Unit 2, The Old Barn, Redland Farm, Bonvilston CF5 6TU

0300 200 7233
AndrewRT.Davies@senedd.wales
www.andrewrtdavies.co.uk
AndrewRTDaviesMS
AndrewRTDavies
AndrewRT.Davies

## JOEL **JAMES MS**

WELSH PARLIAMENT
Cardiff Bay CF99 1SN

0300 200 7471
Joel.James@senedd.wales
www.joeljames.wales
JoelJamesSWC
JoelJamesSWC
JoelJamesSWC

# Out and about across South Wales Central



## ANDREW BACKS DEFIBRILLATOR CAMPAIGN

Andrew has called on the Welsh Government to ensure that all sports fields in Wales have a defibrillator. Recent incidents have shown how vital they are and he says we must act quickly to save lives.



## SUPPORTING OUR ARMED FORCES

Joel has recently visited Maindy barracks in support of our armed forces and was hosted by reservists from 3rd Battalion The Royal Welsh. Joel has said "I can't express strongly enough the gratitude we all feel to our soldiers, as well as their families, for what they've done over this past year in helping with the vaccination programme, the Welsh Warriors really are the pride of South Wales."



## HELP US TO KEEP FLYING

Joel was hosted on a socially-distanced visit, by members of the Welsh Air Ambulance trust's board, who gave an insightful presentation about the work of the Emergency Medical Retrieval and Transfer Service, the people who work there, the sort of call outs they attend, as well as how the charity funds itself. The Welsh Air Ambulance provides 24 hour air cover to relieve illness and injury across Wales and relies entirely on donations to raise £8 million each year to maintain their operation.



## ANSWERS REQUIRED ON FLOODING

A report published by RCT Council found that the severe flooding in Pentre during Storm Dennis last year was caused by a Natural Resources Wales managed culvert being blocked. NRW's neglect had added to the severity of the flooding and Andrew has called on them to compensate flood victims.

Many of Andrew's constituents, especially in Pontypridd and RCT, suffered the devastating impacts of Storm Dennis. Severe floods caused significant damage to many homes and businesses, with local infrastructure put under huge pressure. The Welsh Government must provide long term support to put the damage right.




## NEW ROAD INFRASTRUCTURE ESSENTIAL

Andrew is frustrated by the Welsh Government's announcement to freeze all road building projects in Wales. He believes their unwillingness to progress projects like the Dinas Powys by-pass will stifle Wales' economic recovery from COVID-19 and worsen pollution as cars are sat in gridlocked traffic.




## DEMENTIA AFFECTS US ALL

Joel has proudly supported the 'Cure the Care System' petition handed in on the 7th July by the Alzheimer's Society Cymru. At present, nearly a million families are affected by dementia in the UK and are struggling to provide the care for loved ones, with the dignity and support they deserve. Joel has publicly said "More investment is needed to help services provide the care and support people need."




**ANDREW RT DAVIES AS & JOEL JAMES AS**

Haf 2021

Eich tîm AS rhanbarthol ar gyfer Canol De Cymru

# EICH TÎM NEWYDD AR GYFER CANOL DE CYMRU

**Mae Aelodau o'r Senedd Canol De Cymru, Andrew RT Davies a Joel James, wedi sôn am eu "balchder aruthrol" wrth gael eu hethol i wasanaethu eu hardal leol.**

Yn etholiadau'r Senedd ym mis Mai, ail-etholwyd Andrew am ei bedwerydd tymor ac etholwyd Joel am y tro cyntaf. Mae Andrew a Joel yn dîm aruthrol sy'n cyflwyno llais Ceidwadol cryf yn y Senedd ac yn pwysleisio pwysigrwydd yr Undeb ac yn cynrychioli pobl Caerdydd, y Fro a RhCT, fel rhan o'r Grŵp o 16 Ceidwadwr Cymreig cryf newydd.



Meddai Andrew, "Mae'n anrhydedd enfawr cael fy ailethol i wasanaethu fel cynrychiolydd rhanbarthol ar gyfer Caerdydd, y Fro a RhCT am y pedwerydd tro.

"Does dim problem yn rhy fawr nac yn rhy fach, felly os oes unrhyw beth y gallaf eich helpu gydag ef, cofiwch gysylltu â ni.

"Rwy'n falch iawn o gael Joel yn ymuno â mi fel AS rhanbarthol a gyda'n gilydd byddwn yn ffurfio tîm cadarn sy'n dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif."

Meddai Joel, "Rwy'n hynod o falch fy mod wedi cael fy ethol i wasanaethu pobl Canol De Cymru yn y Senedd. Rwy'n ffodus iawn fy mod wedi cael fy ethol ar adeg o ehangu grŵp y Ceidwadwyr Cymreig ac yn falch iawn o fod yn rhan o'r tîm Ceidwadol brwdfrydig a bywiog newydd yn y chweched Senedd. Credaf fod bod ar gael yn agwedd allweddol ar swydd seneddol, a hoffwn ailadrodd geiriau Andrews ynglŷn â chysylltu. Mae fy swyddfa ar waith erbyn hyn felly ffoniwch neu e-bostiwch os oes angen fy nghymorth arnoch chi."



Mae Andrew a Joel ill dau wedi rhoi teyrnged i gyn-AS Canol De Cymru, David Melding, a roddodd y gorau iddi ar ôl 22 mlynedd. Meddai Andrew, "Roedd yn anrhydedd gwasanaethu ochr yn ochr â David ers 2007, a gwn y bydd yn golled fawr i wleidyddiaeth Cymru.

"Mae ganddo gyfraniad mawr i'w wneud o hyd mewn bywyd cyhoeddus ac mae Joel a minnau'n dymuno'r gorau iddo ar gyfer y dyfodol."

Ychwanegodd Joel, "Rwyf wedi adnabod David ers i mi gael fy ethol yn Gynghorydd Bwrdeistref Sirol am y tro cyntaf yn 2008. Dymunaf y gorau iddo yn ei ymddeoliad. Gosododd David safon uchel yng ngwleidyddiaeth Cymru ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at barhau i ddarparu cynrychiolaeth o safon uchel yng Nghanol De Cymru."

## ANDREW RT DAVIES AS

SENEDD CYMRU
Bae Caerdydd CF99 1SN

SWYDDFA'R ETHOLAETH
Uned 2, Yr Hen Ysgubor, Fferm Redland, Tresimwn CF5 6TU

0300 200 7233

AndrewRT.Davies@senedd.cymru

www.andrewrtdavies.co.uk

AndrewRTDaviesMS

AndrewRTDavies

AndrewRT.Davies

## JOEL JAMES MS

SENEDD CYMRU
Bae Caerdydd CF99 1SN

0300 200 7471

Joel.James@senedd.cymru

www.joeljames.wales

JoelJamesSWC

JoelJamesSWC

JoelJamesSWC

Comisiwn y Senedd sydd wedi talu am hyn o arian cyhoeddus.

Welsh Conservatives | Ceidwadwyr Cymreig

Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Yma a Thraw yng Nghanol De Cymru



## ANDREW YN CEFNOGI'R YMGYRCH DIFFIBRILIWR

Mae Andrew wedi galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod diffibriliwr gan bob maes chwaraeon yng Nghymru. Mae digwyddiadau diweddar wedi dangos pa mor hanfodol ydyn nhw ac mae'n dweud bod yn rhaid i ni weithredu'n gyflym i achub bywydau.



## CEFNOGI EIN LLUOEDD ARFOG

Yn ddiweddar, mae Joel wedi ymweld â barics Maendy i gefnogi ein lluoedd arfog ac fe'i croesawyd gan filwyr wrth gefn o 3ydd Bataliwn y Cymry Brenhinol. Mae Joel wedi dweud "Alla'i ddim mynegi'n ddigon cryf pa mor ddiolchgar ydyn ni i gyd i'n milwyr, yn ogystal â'u teuluoedd, am yr hyn y maen nhw wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf wrth helpu gyda'r rhaglen frechu. Does dim dwywaith bod Rhyfelwyr Cymru yn destun balchder yma yn y De."




## HELPWCH NI I DDAL ATI I HEDFAN

Croesawyd Joel ar ymweliad gan gadw pellter cymdeithasol, gan aelodau o fwrdd ymddiriedolaeth Ambiwlans Awyr Cymru, a roddodd gyflwyniad llawn gwybodaeth am waith y Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys, y bobl sy'n gweithio yno, y math o alwadau y maen nhw'n eu mynychu, yn ogys al â'r modd y mae'r elusen yn ariannu ei hun. Mae Ambiwlans Awyr Cymru yn darparu gwasanaeth awyr 24 awr i leddfu salwch ac anafiadau ledled Cymru ac mae'n dibynnu'n llwyr ar roddion i godi £8 miliwn bob blwyddyn i gynnal eu gweithgarwch



## ANGEN ATEBION AR Y LLIFOGYDD

Canfu adroddiad a gyhoeddwyd gan Gyngor Rhondda Cynon Taf fod y llifogydd difrifol yn Pentre yn ystod Storm Dennis y llynedd wedi'i achosi gan rwystr mewn ceuffos a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd esgeulustod CNC wedi ychwanegu at ddifrifoldeb y llifogydd ac mae Andrew wedi galw arnynt i ddigolledu dioddefwyr y llifogydd.




## SEILWAITH FFYRDD NEWYDD YN HANFODOL

Mae Andrew'n teimlo'n rhwystredig ynghylch cyhoeddiad Llywodraeth Cymru i rewi pob prosiect adeiladu ffyrdd yng Nghymru. Mae'n credu y bydd eu hamharodrwydd i ddatblygu prosiectau fel ffordd osgoi Dinas Powys yn rhwystro adferiad economaidd Cymru o COVID-19 ac yn gwaethygu llygredd wrth i geir aros yn eu hunfan mewn tagfeydd traffig.




## MAE DEMENTIA'N EFFEITHIO AR BOB UN OHONOM

Mae Joel yn falch o gefnogi deiseb 'Cure the Care System' a gyflwynwyd gan Gymdeithas Alzheimer Cymru ar 7 Gorffennaf. Ar hyn o bryd, mae dementia yn effeithio ar bron i filiwn o deuluoedd yn y DU ac maen nhw'n ei chael hi'n anodd darparu'r gofal i anwyliaid, gyda'r urddas a'r cymorth maen nhw'n eu haeddu. Mae Joel wedi dweud yn gyhoeddus "Mae diffyg buddsoddi ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi creu'r broblem bod gwasanaethau'n brin o adnoddau i ddarparu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar bobl, ac fel aelod rhanbarthol rwy'n gwneud popeth o fewn fy ngallu i dynnu sylw at y mater hwn."